

## Y CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 28 Ionawr 2025 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, Diane King, Geraint Lloyd-Williams, Julie Matthews, Jason McLellan, Barry Mellor, Raj Metri, Merfyn Parry, Will Price, Arwel Roberts (Is-gadeirydd), Anton Sampson, Gareth Sandilands, Peter Scott (Cadeirydd), Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (TW); Pennaeth Cyllid ac Archwilio (LT); Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau (PB); Rheolwr Darparu Gwasanaeth (LG); Rheolwr Cyllid a Sicrwydd (JR); Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP); Cynhaliwr Zoom a Gweddarlledu (KJ); a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr James May, Terry Mendies, Elfed Williams a Huw Williams

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

Ar y pwynt hwn, roedd y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, eisiau diolch i'r Adran Briffyrdd, Gwasanaethau Stryd, y tîm gwastraff a staff y switsfwrdd am eu holl waith dros yr ychydig wythnosau diwethaf yn cadw pawb yn ddiogel. Yn gyntaf gyda'r gwynt, eira a rhew a ddaeth gyda storm Darragh, ac yna gwyntoedd uchel iawn storm Eowyn yr wythnos ddiwethaf a ddaeth â thua 30 o goed i lawr, gan flocio llawer o'n ffyrdd. Nid oedd yn hawdd gweithio dan yr amodau hynny a gofynnodd y Cynghorydd Mellor am gael cofnodi bod pawb yn ddiolchgar iddynt gan ei fod wedi bod yn gyfnod anodd iawn.

### 3 MATERION BRYD Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

Ar y pwynt hwn, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod tri chwestiwn wedi dod i law.

### Cwestiwn 1

Cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Justine Evans i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jason McLellan.

“A all yr Aelod Arweiniol neu'r Swyddogion esbonio pam na ymgynghorwyd yn swyddogol ag Aelodau lleol o Gyngor Sir y Ceidwadwyr yn y Rhyl ynghylch Lyons Holiday Parks a CSDd yn trafod cytundeb prydles posibl ar gyfer safle Acwariwm Môr y Rhyl”.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan na fu unrhyw gynigion sylweddol a oedd wedi arwain at unrhyw gasgliadau.

Roedd cynnig wedi'i wneud i brynu, nodwyd mai dim ond mewn lesddaliad yr oedd gan y cyngor ddiddordeb. Ar y ddealltwriaeth honno gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb, ynghyd â gwybodaeth bellach am gynllun busnes, defnydd arfaethedig o'r adeilad a phenawdau'r telerau drafft. Rhoddwyd terfyn amser a daeth y terfyn amser hwnnw i ben, rhoddwyd estyniad pellach i'r amser ac ni chafwyd unrhyw wybodaeth. O ganlyniad, credwyd nad oedd y trafodaethau'n mynd rhagddynt.

Petai unrhyw gynigion sylweddol yn dod i law byddai pob aelod yn cymryd rhan.

### Cwestiwn 2

Cwestiwn gan y Cynghorydd Will Price

“A all yr Aelod Arweiniol neu'r Swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol safle Sinema Vue y Rhyl ar ôl iddo gau yn ddiweddar”.

Ymatebodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan fod e-bost wedi'i anfon yn ddiweddar yn nodi bod proses mynegi diddordeb i ddechrau fis nesaf (Chwefror). Roedd gwaith yn cael ei wneud gydag arbenigwyr sinema i ail-osod y sinema fel sinema. Roedd swyddogion yn cydweithio gyda dull strategol gan ei fod yn adeilad pwysig ac yn safle pwysig yn y Rhyl. Roedd aelodau'r Rhyl, Grŵp Ardal Aelodau y Rhyl a Chyngor Tref y Rhyl, Bwrdd Tref y Rhyl, yr AoS, AS ac aelodau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd a rhoddwyd sicrwydd y byddai aelodau'n cael eu hysbysu pe bai unrhyw ddatblygiadau.

### Cwestiwn 3

Cwestiwn gan y Cynghorydd Hugh Irving yn gofyn am gadarnhad bod Tŵr Awyr y Rhyl neu unrhyw adeiladau eraill wedi'u goleuo'n biws y noson gynt i gydnabod Diwrnod yr Holocost.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, Gary Williams y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn cysylltu â'r Cynghorydd Irving yn dilyn y cyfarfod gan ei fod wedi bod yn garreg filltir bwysig mewn hanes.

Gofynnodd y Cynghorydd Irving gwestiwn atodol o ran a oedd unrhyw Gynghorwyr wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y digwyddiad.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, Gary Williams, eto y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn cysylltu â'r Cynghorydd Irving ar ôl y cyfarfod.

#### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Adroddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Scott, ar y digwyddiadau dinesig y bu iddo eu mynychu.

**PENDERFYNWYD** nodi Dyddiadur y Cadeirydd.

#### **5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2024.

Materion yn Codi –

Tudalen 11 (Cwestiwn 2) – cadarnhawyd bod neges wedi'i hanfon at y cyhoedd i roi gwybod iddynt am glirio gwastraff. Roedd y tîm Rheoli hefyd wedi bod yn gweithio ar y broblem yn ymwneud â chasgliadau biniau strydoedd dros gyfnod y Nadolig. Roedd cyllid ar gyfer staff ychwanegol yn y Gwasanaethau Stryd wedi dod i ben ar gyfer yr Adran yn ddiweddar, a arweiniodd at brinder staff yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, roeddent bellach yn dod yn ôl i drefn a dylai'r gwasanaeth fod yn gwella.

Tudalen 13 - Rhybudd o Gynnig wedi'i gyflwyno gan y Blaid Werdd ynghylch Ystâd y Goron. Gofynnwyd am gadarnhad a oedd yr Arweinydd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac os felly, a ellid dosbarthu copi o'r llythyr i'r Aelodau. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod llythyr wedi'i anfon ac y byddai'n darparu copi o'r llythyr yn unol â'r cais.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2024 fel cofnod cywir.

#### **6 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2025/26**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis, adroddiad Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor 2025/26 (dosbarthwyd ymlaen llaw).

O 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb o roi cymorth gyda threth y cyngor a'r cyllid sy'n gysylltiedig â hynny i Lywodraeth Cymru.

Cwblhaodd Llywodraeth Cymru'r ddau set o reoliadau blynyddol ar 24 Ionawr 2025 ac mae'n rhaid i bob un o'r 22 cyngor yng Nghymru fabwysiadu Rheoliadau Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau wedi'u diwygio erbyn 31 Ionawr 2025.

Roedd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fabwysiadu'r elfennau dewisol yn eu cynlluniau ac i'r Cyngor gymeradwyo'r tair elfen ddewisol a ganlyn a fu'n gyson ers dechrau'r cynllun –

- (i) Peidio â chynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos o Ostyngiadau Treth y Cyngor i ymgeiswyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith pan fuont yn cael budd-dal cymwys perthnasol;
- (ii) Diystyru 100% o bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Rhyfel Gweddw wrth gyfrifo incwm; a
- (iii) Pheidio â chynyddu'r cyfnod mwyaf ar gyfer ôl-daliadau i Ostyngiadau Treth y Cyngor y tu hwnt i'r 3 mis safonol.

Y cyngor sy'n gyfrifol am ddilysu'r hawliadau. Bu CSDd yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol a oedd yn ymarfer paru data, a helpodd i atal a chanfod twyll. Roedd CSDd hefyd yn dibynnu ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu llawer iawn o ddata.

Roedd diwygiadau i Gynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i sicrhau bod rheoliadau 2013 yn parhau'n gyfredol ac yn addas at y diben. Roedd un o'r diwygiadau yn ymwneud ag Unigolion sydd wedi'u Dadleoli a godwyd yn ystod trafodaethau. Byddai'n ofynnol i unrhyw unigolion sydd wedi'u dadleoli sy'n cyrraedd y DU o unrhyw un o'r gwledydd a grybwyllwyd yn yr adroddiad fodloni amodau preswyllo. Byddai hyn yn eu galluogi i hawlio budd-daliadau yn ymwneud ag incwm, anabledd a gofalwyr. Byddai'r newid hefyd yn galluogi'r unigolion hynny i hawlio o dan Gynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor yng Nghymru.

CYNIGIWIYD gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis a'i EILIO gan y Cynghorydd Bobby Feeley.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo a chymeradwywyd yr adroddiad yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) *Bod aelodau yn mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) 2025 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2025/26.*
- (ii) *Bod yr aelodau'n cymeradwyo elfennau dewisol y cynllun, a ddangosir yn adran 4.4 yn yr adroddiad, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.*

**7 CYNLLUN CYFALAF 2024/25 - 2027/28**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis, adroddiad Cynllun Cyfalaf 2024/25 – 2027/28 (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Diweddarwyr yr Aelodau ar y Cynllun Cyfalaf a'r Adroddiad Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26. Roedd y Cynllun Cyfalaf yn cofnodi holl gyllid a gwariant cyfalaf gwirioneddol Cronfa'r Cyngor a'r hyn a ragwelir. Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn

darparu trosolwg lefel uchel, cryno a chynhwysfawr o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Roedd Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

Y tro diwethaf i'r Cynllun Cyfalaf gael ei adrodd i'r Cyngor oedd ym mis Chwefror 2024. Cyflwynwyd diweddariadau rheolaidd i'r Cabinet.

Roedd y Cyngor yn wynebu heriau ariannol, fel yr holl gynghorau yng Nghymru, o ganlyniad i bwysau chwyddiant a phwysau a arweinir gan alw sydd ymhell y tu hwnt i'r lefel o gyllid a ragwelir. Oherwydd maint yr her ariannol, cytunwyd ar egwyddorion ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol, a oedd wedi'u nodi o dan 4.2 yn yr adroddiad.

Roedd y Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu ceisiadau cyfalaf, gan wneud argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf o 2025/26 ymlaen. Manylwyd ar y rhain yn Atodiad 3 ac fe geir crynodeb yn Atodiad 4.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol –

- (i) Buddsoddiad ysgolion yn Ninbych – nid oedd ffigyrau buddsoddi wedi eu cynnwys yn y cynllun ac roedd y bloc cynnal a chadw wedi gostwng o £3 miliwn i £900 mil. Cadarnhawyd y byddai'r ffigyrau wedyn yn ymddangos yn y Cynllun ar gyfer cymunedau dysgu cynaliadwy pan fyddai'r achos busnes llawn wedi'i gymeradwyo. O ran y bloc cynnal a chadw, roedd y ffigurau ar gyfer 2024/25 a 2025/26. Yr hyn a fyddai yn nhabl 2025/26 fyddai'r hyn a oedd newydd gael ei gymeradwyo fel rhan o'r dyraniad bloc. Yr hyn a fyddai yn nhabl 2024/25 oedd yr hyn a ddyrannwyd dros nifer o flynyddoedd, ac a oedd wedi'i gynnwys yn y ffigur mwy hwnnw. Roedd y ffigwr ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion yn Atodiad 4 yr adroddiad.
- (ii) Roedd Cynllun Cyfalaf 2024/25 yn cynnwys ailfodelu'r gwasanaethau Gwastraff, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fyddai angen cyfalaf ychwanegol wrth symud ymlaen yn 2025/26. Cadarnhawyd hyd yma na fyddai angen unrhyw gyfalaf ychwanegol. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau grant tuag at yr £1.3 miliwn a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2024. Felly, byddai'r ffigwr a nodir yn is ar ôl i'r grant gael ei gymeradwyo.
- (iii) Bu gostyngiad yn y cyllid ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd. Mynegwyd pryderon ynghylch cyflwr gwael y ffyrdd a byddai angen buddsoddi cyn i gost cynnal a chadw'r ffyrdd gynyddu. Nodwyd y posibilrwydd o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ond nad oedd modd ei gadarnhau ar hyn o bryd. Byddai hyn yn lleddfu peth o'r pwysau ar y gwaith cynnal a chadw priffyrdd.
- (iv) Roedd pob dyraniad yn cynhyrchu achos busnes llawn, ac o fewn yr achos busnes roedd allyriadau carbon pob cynllun wedi'u nodi cyn belled ag y bo modd, a byddai'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu gyda'r aelodau.
- (v) Cadarnhawyd y byddai'r grant tai sector preifat o £1.5 miliwn yn cael ei wario'n helaeth ar y gofynion statudol i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r

anabl, ar gyfer addasu cartrefi pobl er mwyn iddynt allu cynnal eu hannibyniaeth a byw'n annibynnol o fewn y gymuned.

- (vi) Gofynnodd yr aelodau a oedd ffigwr i godi lefel statudol o ran diogelwch ac ati priffyrdd Sir Ddinbych. Cadarnhawyd y byddai'n amhosibl darparu union ffigwr. Gellid edrych ar ffigwr bras a'i roi i'r aelodau yn y gwahanol Grwpiau lle adroddir ar gynnal a chadw Priffyrdd. Byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pennaeth Priffyrdd.
- (vii) Cadarnhawyd y byddai'r Swyddog Priffyrdd yn mynd i holl gyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau, fel y gwnaed yn y gorffennol i ddiweddarau'r aelodau ar y priffyrdd yn eu hardaloedd.

Ar y pwynt hwn, argymhellodd y Prif Weithredwr y dylid cynllunio Gweithdy Cyngor i drafod pryderon Priffyrdd gan ei fod yn fater yr oedd gan yr aelodau nifer o gwestiynau yn ei gylch.

CYNIGIWYD gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, EILIWYD gan y Cynghorydd Gareth Sandilands.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo adroddiad Cynllun Cyfalaf 2024/25 – 2027/28.

#### **PENDERFYNWYD –**

- (i) *Bod Aelodau'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Cynllun Cyfalaf 2024/25 – 2027/28 presennol sydd yn Atodiad 1 a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau mawr yn Atodiad 2.*
- (ii) *Bod Aelodau yn cefnogi argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf a'r Cabinet yn ymwneud â chynigion cyfalaf i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26 fel y nodir yn Atodiad 3 ac a gaiff eu crynhoi yn Atodiad 4.*
- (iii) *Bod Aelodau'n cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2025/26 sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.*
- (iv) *Bod Aelodau'n cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2025/26 fel y manylir yn Atodiad 5.*

## **8 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26 A DANGOSYDDION DARBODUS 2025/26 I 2027/28 (ATODIAD 1)**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis, y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2025/2026 ac adroddiad Dangosyddion Darbodus 2025/2026 i 2027/2028 (Atodiad 1) (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Mae'r DSRhT yn dangos sut byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn gosod polisiau ar gyfer gweithredu swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Roedd Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

CYNIGIWIYD gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis a'i EILIO gan y Cynghorydd Alan James.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo a chymeradwywyd yr adroddiad gan y mwyafrif, gydag un yn ymatal.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn -

- (i) *Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1)*
- (ii) *Cymeradwyo'r gwaith o osod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2025/2026, 2026/2027 a 2027/2028 (Atodiad 1)*
- (iii) *Cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Wrth Gefn (Atodiad 1 Adran 6)*
- (iv) *Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **9 TREFNIADAU CRAFFU AR GYFER CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan, y Trefniadau Craffu ar gyfer adroddiad Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2021 fel corff corfforaethol ar wahân i gyflawni swyddogaethau statudol ar draws y gogledd. Enillodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei swyddogaethau wedi hynny ym mis Mehefin 2022.

Mae swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel a ganlyn -

- (i) Paratoi, monitro, atolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol
- (ii) Datblygu Cynllun Cludiant Rhanbarthol gyda pholisïau ar gyfer cludiant rhanbarthol
- (iii) Meddu ar y pŵer i wneud unrhyw beth a oedd yn debygol o hyrwyddo lles economaidd

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gorff awdurdod lleol ar wahân gyda'i swyddogaethau ei hun ac aelodaeth yn bennaf o'r chwe chyngor yng ngogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Roedd yn ofynnol mabwysiadu'r rhan fwyaf o drefniadau llywodraethu cyffredinol Awdurdod Lleol gan gynnwys Is-bwyllgor Cyfansoddiad, Llywodraethu ac Archwilio, Is-bwyllgor Safonau a Gofynion cyfreithiol eraill, gan gynnwys Adolygiadau Perfformiad, Polisiau Cydraddoldeb a Bioamrywiaeth a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Byddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn destun craffu fel rhan o'r broses ddemocrataidd, ac roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am allu CSDd i ymuno â'r Grŵp Craffu Rhanbarthol ac i graffu'n unigol ac yn fewnol ar faterion yn ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Roedd y gyfraith yn mynnu bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cydweithredu â phwyllgor craffu perthnasol. Roedd y canllawiau statudol presennol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhagweld y byddai hyn yn seiliedig ar graffu gan yr awdurdodau cyfansoddol. Roedd y canllawiau'n awgrymu y byddai'n briodol i'r gwaith craffu ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig gael ei gynnal gan Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, sef corff rhanbarthol a oedd wedi'i fabwysiadu gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill ledled Cymru.

Roedd profiad yn lleol o gydbwyllgor craffu a hwnnw oedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Ni fyddai bodolaeth craffu ar y cyd yn atal Pwyllgorau Craffu lleol rhag craffu ar faterion lleol sy'n codi o waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Byddai 2 aelod o bob Awdurdod Lleol yn cael eu penodi i'r Cydbwyllgor Craffu yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol pob awdurdod penodi.

Byddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r cydbwyllgor cyffredinol, a byddai Swyddogion Craffu ar draws y rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd i reoli eitemau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor Craffu hwnnw.

Argymhellwyd bod Gweithdy Cyngor yn cael ei gynnal i drafod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ymhellach a chraffu arnynt. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei drefnu ar gyfer Gweithdy'r Cyngor yn y dyfodol.

CYNIGIWYD gan y Cynghorydd Jason McLellan ac EILIWYD gan Alan James.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo a chytunwyd yn unfrydol i gefnogi Trefniadau Craffu Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) Bod y Cyngor yn cytuno i sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru gyda'r Cylch Gorchwyl fel y nodir yn Atodiad 1*
- (ii) Bod y Cyngor yn cytuno y bydd pwerau Pwyllgorau Craffu Lleol a ddarparwyd o dan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2002 yn cael eu cadw*
- (iii) Cytuno y bydd cydbwysedd gwleidyddol enwebeion Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adlewyrchu aelodaeth Cyngor Sir Ddinbych yn hytrach nag aelodaeth cynghorau'r gogledd yn eu cyfanrwydd*
- (iv) Cytuno y bydd yr ysgrifennydd ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei ddarparu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unol â'r Cylch Gorchwyl*



Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, David Stewart, Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24 (dosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Cyngor ynghylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

Mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor i gael Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwnnw.

Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am adolygu Cyfansoddiad y Cyngor yn barhaus.

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gofyn bod traean o aelodau'r Pwyllgor yn aelodau lleyg. Mae yno chwech o aelodau etholedig a thri o aelodau lleyg ar y Pwyllgor. Roedd y Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod lleyg. Y Cadeirydd presennol yw Mr David Stewart.

Diolchodd yr aelodau i'r Cadeirydd, David Stewart a holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu gwaith da.

CYNIGIWDYD gan y Cyngorydd Mark Young ac EILIWYD gan y Cyngorydd Arwel Roberts.

Cynhaliwyd pleidlais drwy godi dwylo a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn parhau i ystyried mor bwysig yw llywodraethu corfforaethol da ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, yn enwedig felly:

- (i) Yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â'r strategaeth ariannol
- (ii) Effeithiolrwydd parhaus y gofrestr risgiau gorfforaethol
- (iii) Pryderon y Pwyllgor ynglŷn ag effeithiau posib ar ddarpariaeth gwasanaethau a swyddogaethau llywodraethu allweddol yn sgil anawsterau wrth recriwtio a chadw staff.

## 11 ADOLYGIAD O DDOSBARTIADAU ETHOLIADOL A MANNAU PLEIDLEISIO YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd, Steve Price, adroddiad yr Adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio a Lleoedd yn Sir Ddinbych (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i adolygu ei ddosbarthiadau etholiadol a manau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Gwahoddwyd sylwadau gan y cyhoedd ar y dosbarthiadau etholiadol, y manau pleidleisio a'r gorsafodd pleidleisio presennol neu a awgrymwyd yn ystod mis

Tachwedd a mis Rhagfyr 2024. Argymhellwyd y dylai unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i fannau pleidleisio ystyried y pwyntiau canlynol -

- (i) A oedd yr eiddo yn ddigon mawr ar gyfer nifer yr etholwyr (pleidleiswyr cofrestredig) a ddyrannwyd
- (ii) A oedd yr eiddo mewn lleoliad mor ganolog ag sy'n bosibl ar gyfer y dosbarth etholiadol mae'n ei wasanaethu
- (iii) A fyddai modd gwarantu y byddai'r man pleidleisio ar gael i'w ddefnyddio yn yr hirdymor
- (iv) Fyddai'r eiddo, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn hygyrch i bobl ag anableddau.

Aeth yr ymgynghoriad yn fyw gyda gwybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor a'i hanfon at Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, yr holl gynghorwyr, ac ystod o sefydliadau hygyrchedd a gwirfoddol yr oedd eu cylch gorchwyl yn cwmpasu Sir Ddinbych.

Roedd yr ymgynghoriad a'r wybodaeth ar y wefan yn cynnwys dolen i holiadur ar gyfer ymatebion ar y cyd, a dangoswyd yr ymatebion a ddaeth i law yn Atodiad 2.

Nid oedd asesu addasrwydd manau a gorsafoedd pleidleisio yn dibynnu ar yr adolygiad statudol, gan y byddai swyddfa'r etholiad yn ystyried newidiadau, newidiadau mewn amgylchiadau a chynigion ar unrhyw adeg.

Mae profiadau o etholiadau diweddar a gynhaliwyd yn yr ardal neu ar safle a allai fod yn fwy addas yn arwain at newid. Mae'n bosibl na fydd adeilad a ddefnyddiwyd gynt fel gorsaf bleidleisio ar gael mwyach. Digwyddodd hyn yn ddiweddar, ac arweiniodd at orfod chwilio am ddewis arall addas ar unwaith.

Dyweddodd y Comisiwn Etholiadol y dylai fod dewis o adeiladau cwbl hygyrch wedi'u lleoli'n gyfleus i etholwyr yn yr ardal, a pherchnogion yn fodlon eu llogi fel gorsaf bleidleisio am gost isel. Yn anffodus, yn ymarferol, nid dyma'r achos yn aml ac mewn rhai ardaloedd efallai mai ychydig iawn o ddewis sydd ar gael. Ymddengys bod y rhwydwaith presennol yn cael ei groesawu ac yn addas at y diben. Roedd gwybodaeth yr ymgynghoriad yn nodi nad oes gofyniad na disgwyliad i gyflwyno sylwadau er bod croeso i bobl wneud hynny. Pe na bai unrhyw sylwadau'n cael eu cyflwyno, tybir bod y trefniadau pleidleisio presennol yn addas ar gyfer y gymuned.

Roedd y sylwadau a wnaed i'w gweld yn Atodiad 2 ac roeddent yn cefnogi'r trefniadau presennol. Yr eithriad oedd yr awgrym a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Dwyrain Clwyd, sydd hefyd yn Brif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint. Roedd yn gyfrifol am etholiadau Seneddol y DU ar gyfer Dwyrain Clwyd, gan gynnwys yr ardal a gwmpesir gan Neuadd Blwyf y Waen y gwnaeth y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ei sylwadau arni.

Y newid y gofynnwyd amdano i'w ystyried oedd cyfuno tair gorsaf bleidleisio, a defnyddio Neuadd Blwyf y Waen fel yr un orsaf ar gyfer Etholiadau Seneddol y DU. Cefnogwyd y newid hwn gan y swyddfa etholiadol gan na fyddai'n effeithio ar bleidleiswyr, ac ni fyddai pleidleiswyr yn sylwi ar y newid. Byddai'n ddefnydd mwy effeithlon o staff yr orsaf bleidleisio a byddai modd rheoli cyfanswm y pleidleiswyr ar gyfer yr orsaf bleidleisio honno.

Roedd un gŵyn wedi'i gwneud yng ngogledd y sir mewn etholiad a gynhaliwyd yn 2024 ynghylch dyfais bleidleisio gyffyrddol y gallai pobl â nam ar eu golwg ei defnyddio. Gwrthododd y pleidleisiwr ddefnyddio'r ddyfais. Nid oedd y gŵyn a gafwyd wedi dod gan y pleidleisiwr ei hun ond gan unigolyn a oedd wedi bod yn yr orsaf bleidleisio ar y pryd ac wedi drysu ynghylch a oedd dyfais bleidleisio gyffyrddol ar gael.

Roedd hygyrchedd yn hynod bwysig a chafodd ei godi gan Ddeddf Etholiadau 2022. Bydd mwy o declynnau yn y gorsafoedd pleidleisio, e.e.: gripiau beiros, goleuadau digonol, arwyddion a hefyd hyfforddiant i staff yr orsaf bleidleisio ar faterion hygyrchedd.

Nid oedd pob gorsaf bleidleisio wedi'i hadeiladu'n hygyrch, ond roedd y swyddfa etholiadol yn ymwybodol o faterion fel hyn.

CYNIGWYD gan y Cynghorydd Julie Matthews ac EILIWYD gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adolygiad.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) *Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r rhwydwaith presennol o ddsbarthiadau etholiadol, manau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio fel y nodwyd yn Atodiad 1, yn amodol ar argymhelliad (ii) isod*
- (ii) *Mewn perthynas â ward etholiadol Tremeirchion, bod y Cyngor yn cefnogi ymateb y Swyddog Canlyniadau i'r sylwadau a wnaed yn Atodiad 2 i gyfuno'r tair gorsaf bleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol i un orsaf bleidleisio ar gyfer dosbarthiadau etholiadol BKB, BKC a BKD, sydd wedi'u lleoli yn Neuadd Blwyf y Waen.*

## **12 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR**

Rhoddodd y Swyddog Monitro gyflwyniad a chrynodeb o sefyllfa ddiweddaraf Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar 20 Chwefror 2025 a Gweithdy nesaf y Cyngor ar 11 Chwefror 2025.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, i nodi Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12 dydd.**